Dŵr Cymru
Welsh Water

# Dargyfeirio carthffosydd cyhoeddus

Beth ddylech chi ei wneud, a sut allwn ni helpu



dwrcymru.com

WWCAP0200

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw dargyfeirio carthffos? | 3 |
| Cyn cychwyn arni | 3 |
| Cyflwyno cais | 4 |
| Beth fydd cost dargyfeiriad? | 4 |
| Cyfyngiadau | 5 |
| Barod i wneud cais? | 6 |
| Atodiad 1 - Plan o'r gosodiad | 7 |

# Beth yw dargyfeirio carthffos?

Mae gan unrhyw un sydd â buddiant mewn unrhyw dir (gan gynnwys tir cyfagos) lle mae carthffos gyhoeddus neu offer cysylltiedig, yr hawl i wneud cais i ddiwygio neu ddileu, gan gynnwys dargyfeirio (cyfeirir at y pethau hyn yn gyffredinol fel dargyfeirio at ddibenion y nodiadau hyn) y garthffos yna er mwyn cyflawni gwelliant ar y tir o dan sylw (e.e. datblygu neu newid defnydd). Rhoddir yr hawl yma o dan Adran 185 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA 1991). Nid yw hyn o reidrwydd yn ymwneud â charthffosydd mewn priffyrdd cyhoeddus, ond gellir defnyddio'r broses mewn rhai achosion.

Mae dargyfeirio carthffos yn cynnwys dargyfeirio unrhyw ased carthffosiaeth cyhoeddus rydyn ni'n ei weithredu neu'n ei gynnal, o ddraen ochrol sy'n gwasanaethu un eiddo, i orsaf bwmpio carthion fawr.

**Nodyn: Mae 'buddiant' yn cyfeirio at berchnogaeth fel rheol. Dylai unrhyw un nad yw'n berchennog ar y tir ofyn am gyngor cyfreithiol ar eu cymhwyster i ymgeisio cyn cyflwyno cais.**

Rydyn ni'n cadw cofnod o garthffosydd cyhoeddus sy'n fan cychwyn defnyddiol iawn i ganfod lleoliad unrhyw garthffosydd cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r gofrestr yn gofnod cynhwysfawr na chyflawn o'n rhwydwaith o garthfosydd, ac mewn sawl achos, gall carthffosydd heb eu mapio fod yn y tir rydych chi'n bwriadu ei ddatblygu.

Gallwn ni'ch helpu chi i ganfod a oes yna garthffosydd cyhoeddus ar eich tir, ond gallwn godi tâl arnoch am y gwasanaeth yma. Cysylltwch â ni'n uniongyrchol ar **080 0917 2652** am gyngor pellach ar ein proses canfod carthffosydd.

Mae unrhyw ddiwygiadau o bwys i lefelau'r ddaear dros ben neu'n agos at garthffos gyhoeddus yn dod o fewn cwmpas WIA 1991 hefyd, ac unwaith eto, mae angen cael ein caniatâd cyn cyflawni gwaith o'r fath.

# Cyn cychwyn arni

Gallwch ofyn am ddiwygio, dileu neu ddargyfeirio offer trwy gyflwyno cais. Yn nes ymlaen yn y canllaw hwn, byddwn ni'n manylu ar y wybodaeth fydd ei hangen arnom i asesu eich cynigion. Byddwn ni'n ystyried pob cais o'r fath, oni bai ein bod ni'n teimlo bod y cais yn afresymol. Ystyrir bod unrhyw gais a fyddai'n effeithio ar berfformiad y cyfarpar, neu a fyddai'n golygu nad oes modd ei ddefnyddio neu gyrraedd ato, yn afresymol fel rheol.

Ar ôl i ni gadarnhau bod modd dargyfeirio ased neu ei ddiwygio fel arall, byddwn ni'n ystyried ai ni fydd yn cyflawni'r gwaith neu a fyddwn ni'n caniatáu i chi gychwyn cytundeb (a elwir yn Gytundeb Dargyfeirio Adran 185) i gyflawni rhywfaint o'r gwaith, neu'r cyfan, eich hun. Os ydyn ni o'r farn bod angen i ni gyflawni'r gwaith ein hunain, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ar y cyfle cyntaf posibl. Os ydyn ni'n bwriadu cyflawni'r holl waith ein hunain, ni fydd angen i chi gychwyn cytundeb fel y disgrifiwyd uchod.



# Cyflwyno cais

Pan ddaw eich cais i law, byddwn ni'n asesu a ydych chi wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol a fydd yn ein galluogi ni i gyflawni'r asesiad cychwynnol. Os nad yw eich cais yn gyflawn, byddwn ni'n gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth sydd ar goll. Er mwyn osgoi unrhyw oedi, cofiwch gwblhau'r rhestr gyfeirio ar ddiwedd y ddogfen hon a darparu'r holl wybodaeth ategol.

Pan fyddwn ni wedi gorffen asesu eich cais, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi a yw'ch cynnig wedi cael ei dderbyn neu ei wrthod. Os gwrthodir eich cais, byddwn ni'n ysgrifennu atoch i ddweud pam, neu i ofyn am ragor o wybodaeth gennych. Os caiff eich cais ei dderbyn, byddwn ni'n gofyn am daliad ac yn eich anfonebu'n unol â hynny. Ar ôl i'r holl wybodaeth a ffioedd ddod i law, bydd ein hadran gyfreithiol yn paratoi'r cytundeb.

Pa fydd hyn yn barod, a'ch bod wedi talu ein costau cyfreithiol, bydd y naill ochr a'r llall yn llofnodi'r cytundeb a chewch fwrw ymlaen i'r cyfnod adeiladu.

# Beth fydd cost y dargyfeiriad?

Y cwsmer sy'n gofyn am y gwasanaeth fydd yn talu am unrhyw waith i ddargyfeirio carthffos. Lle byddwn ni'n caniatáu i gwsmeriaid ddargyfeirio, bydd angen iddynt ariannu'r gwaith adeiladu sydd ynghlwm wrth y dargyfeiriad a thalu ein costau am asesu manylion technegol y cais, sefydlu cytundeb dargyfeirio carthffos ffurfiol, darparu bond neu ernes i ategu'r cytundeb, ac am archwilio eu gwaith. Cyfrifir ein costau fel a ganlyn -

— Codir ffi am ein gwaith technegol i ddilysu eich cynigion ac archwilio'r gwaith. Mae'r ffi yma i'w gweld yn ein Rhestr o Daliadau.

— Yn rhan o'r cytundeb Adran 185, bydd yna ffioedd eraill i'w hystyried hefyd. Bydd ein tîm cyfreithiol yn codi eu ffi fel cost ychwanegol, cyfrifir hyn fesul achos unigol, a chewch y manylion adeg drafftio'r cytundebau heb eu llofnodi.

— Bydd angen cyflawni arolwg CCTV cyn ac ar ôl y cytundeb. Fel y datblygwr, chi fydd yn gyfrifol am drefnu a thalu cost yr archwiliadau hyn. Bydd yr arolygon CCTV yn sicrhau bod pob cysylltiad cyfredol â'r garthffos sy'n cael ei gwyro yn cael ei glustnodi a'i gymryd i ystyriaeth. Mewn ambell i achos, gallai fod yn fwy cost-effeithiol datguddio'r garthffos i chwilio am gysylltiadau, ac os gwneir hynny, ni fydd angen cyflawni arolwg CCTV. Yn y mwyafrif o achosion, bydd angen arolwg CCTV o'r dargyfeiriad i'r garthffos ar ôl ei gwblhau er mwyn cadarnhau ei gyflwr.

— Bydd angen talu ernes neu fond yn rhan o'r cytundeb dargyfeirio Adran 185. Bydd ein cyfreithwyr yn gofyn am yr ernes / bond yma wrth anfon y copïau drafft o'r cytundeb atoch i'w llofnodi. Cyfrifir swm y bond ar sail 100% o'r amcangyfrif o gyfanswm cost y dargyfeiriad. Os yw gwerth y bond sy'n ofynnol yn fwy na £5,000 bydd angen darparydd ernes (cwmni yswiriant graddfa AA neu fanc neu gymdeithas adeiladu'r stryd fawr). Cysylltwch â ni os oes arnoch angen rhagor o gyngor mewn perthynas â'r ernes. Os yw'r gwerth yn llai na £5,000, gellir ystyried ernes arian parod ag isafswm gwerth o £500. Bydd Dŵr Cymru'n cadw'r ernes yma am o leiaf 12 mis ar ôl cymeradwyo'r gwaith adeiladu, ac unwaith y bydd y dargyfeiriad wedi pasio'r archwiliad terfynol, caiff y bond ei ryddhau ar ddiwedd y Cyfnod Atebolrwydd am Ddiffygion.

Bydd angen i'r gwaith o adeiladu'r dargyfeiriad gael ei gyflawni gan gontractwr ag achrediad Cynlluniau Diogelwch wrth Gaffael (SSIP). Gellir gofyn am dystiolaeth o'r achrediad yma yn rhan o'r broses. Darparwch amcangyfrif o gostau'r gwaith yn rhan o'r cais.



# Cyfyngiadauu

Dylid nodi na allwch ofyn am ddiwygio'r canlynol:

— ibell sy'n cario elifion o weithfeydd trin dŵr gwastraff , neu;

— Pibell sy'n bibell gorlif (o orlif carthfos gyfun, gorsaf bwmpio, gweithfeydd trin dŵr gwastraff ac ati).

Ni ellir ystyried diwygiad arfaethedig os gallai'r cynnig achosi niwed i'r rhwydwaith cyfredol o garthffosydd cyhoeddus.

**Mae esiamplau o niwed yn cynnwys:**

### 1. Lleihau capasiti'r garthffos yn sylweddol a/neu arafu'r llif drwyddi. Dyma beth fydd yn achosi hyn:

— Cynnydd yn hyd y garthffos sy'n achosi gostyngiad annerbyniol yng ngraddiant y garthffos;

— Cyflwyno gormod o droeon ychwanegol neu droeon mwy llym.

Bydd i ba raddau y bydd unrhyw newid yn achosi colled sylweddol yn dibynnu ar osodiad arfaethedig y garthffos, a bydd gofyn i chi gyflwyno cyfrifiadau i ddangos effaith eich dargyfeiriad arfaethedig ar hydroleg y system.

### 2. Atal mynediad hwylus at y garthffos at ddibenion cynnal a chadw.

— Er enghraifft - symud siambrau tyllau archwilio carthffosydd mawr i dir preifat nad yw'n hygyrch i'n cerbydau cynnal a chadw mwyach.

### 3. Ni fyddwn ni'n caniatáu diwygiad i garthffos os:

— Bydd yr addasiad yn achosi neu'n cynyddu'r risg o lifogydd o fewn y dalgylch;

— Yw'r garthffos o dan sylw o bwys strategol.

### 4. Achosion lle bo modd dargyfeirio'r garthffos, ond bod angen i ni gyflawni'r gwaith:

— Lle mae'r diwygiad yn cynnwys gwaith ar neu wrth ymyl gorlif carthffos gyfun.

— Lle mae'r diwygiad yn cynnwys gwaith ar neu'n agos at orsaf bwmpio carthion.

— Lle mae'r diwygiad yn cynnwys gwaith ar brif bibell â phwmp.

— Bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dargyfeiriad mor sylweddol h.y. carthffosydd â diamedr mawr, carthffosydd mewn lleoliadau sy'n amgylcheddol sensitif.



# Barod i wneud cais?

## Dyma restr gyfeirio hwylus i chi wneud yn siŵr eich bod chi wedi gwneud popeth

Y cam cyntaf yw cyflwyno:

☐ Ein ffurflen mynegi diddordeb mewn dargyfeirio carthffos, sydd ar ein gwefan.

Pan fydd eich ffurflen mynegi diddordeb wedi dod i law, byddwn ni'n gofyn i chi:

☐ Lenwi ffurflen gais fwy manwl a darparu

☐ Plan o'r gosodiad (atodiad 1)

☐ Trychlun hydredol sy'n dangos y lefelau cyfredol ac arfaethedig, diamedrau'r pibellau a graddiant y pibellau (dylid nodi taw dim ond pan fo'r llwybr dargyfeirio'n fwy na 20m o hyd a bod angen mwy na 2 siambr twll archwilio newydd y mae angen y rhain. Darparwch fanylion lefelau'r tyllau archwilio mewn fformat tebyg i'r rhestr o dyllau archwilio sy'n gynwysedig yn y gosodiad enghreifftiol).

Am eich bod chi'n cychwyn cytundeb cyfreithiol ffurfiol â ni, bydd angen i'ch planiau a'r wybodaeth ategol arall fod yn fanwl gywir.

Bydd angen i blan y gosodiad (atodiad 1) gynnwys:

— Graddfa a maint y plan

— Cadarnhad y caiff y garthffos ei hadeiladu yn unol â'r safonau a bennir yn 7fed Argraffiad y Canllawiau Dylunio Carthffosydd i'w Mabwysiadu

— Manylion sylfeini unrhyw strwythur newydd yn sgil y dargyfeiriad

— Manylion cyfeirio'r twll archwilio

— Manylion y cysylltiad (mae esiampl ynghlwm)

Bydd angen i fanylion y plan o'r gosodiad (atodiad 1) ddilyn y cynllun lliw canlynol:

— Y garthffos i'w dadgomisiynu – **coloured lliw brown (budr)** / **glas (dŵr wyneb)** / **porffor (dŵr budr ac wyneb cyfun)**

— Carthffos fudr / dŵr wyneb arfaethedig - **lliw coch**

— Hawddfreintiau (os oes angen) – **arlliw melyn**

— Ffin y safle – **ymyl gwyrdd**

— Popeth arall – **du**


Bydd angen darparu trychlun hydredol hefyd sy'n dangos manylion y lefelau cyfredol ac arfaethedig, diamedrau'r pibellau a graddiant y pibellau.

Dylid tynnu'r garthffos a ddadgomisiynir o'r ddaear os yw hynny'n ymarferol, neu gallwn ystyried llenwi (growtio) y garthffos segur a'i chapio os yw hynny'n briodol.

Note: Further guidance relating to our requirements (and specification) can be obtained via our website **developers.dwrcymru.com**. Alternatively, you can contact us on 0800 917 2652 to request a hard copy.

If you have any further queries, please contact us at **developer.services@dwrcymru.com** or call us on 0800 917 2652

# Atodiad 1 – Plan o'r gosodiad




| Chamber ref | Cover level | Invert Level | Chamber type | Cover type |
|---|---|---|---|---|
| F1 | | | Type 3 | B125 |
| F2 | | | Type 3 | B125 |
| F3 | | | Type 3 | B125 |
| F4 | | | Type 3 | B125 |

## Cysylltwch â ni:

Rydyn ni yma i helpu unrhyw bryd...

**Rydyn ni yma i helpu unrhyw bryd...**
0800 917 2652

**Ffoniwch**
developer.services@dwrcymru.com

**Ewch i**
developers.dwrcymru.com

@dwrcymru

/dwrcymruwelshwater